COUNCIL FOR EDUCATION IN WORLD CITIZENSHIP - CYMRU

NEWSLETTER 05

AUTUMN

Active citizenship for Wales and the world

ASSEMBLY CONFIRMS SUPPORT FOR WORLD DEBATES

The Welsh Assembly Government has been confirmed as a major sponsor of the 2006 World Schools Debating Championships, being held in Wales next July. The Assembly's support will help provide debating workshops for students before, during and after the Championships. It will also enable us to distribute teaching materials on debating to all schools and colleges. The Championships are being organised by CEWC-Cymru's parent body, the Welsh Centre for International Affairs, with support from the Wales Debating Federation.

Meanwhile, top BBC journalist John Humphrys has accepted an offer to become Patron of the Championships. On a recent visit to Cardiff, he chatted to Helen Jarman, coach of Wales's national debating team, and told us: "The World Schools Debating Championships is superb – exactly the kind of thing that should be happening in schools. Every school should have a debating club."

Martin Pollard, CEWC-Cymru's Education Officer, visited Wales's twin country, Lesotho, in August. While there, he ran a number of debating workshops and raised the possibility of a Lesotho team participating in the 2006 World Championships.

RELIGION, REFORM AND THE OLYMPICS

Eight talented teams won a place at the quarter-finals of the 2005 Julian Hodge Bank Wales Schools Debating Championships. Preliminary rounds took place in October, with students debating the 2012 Olympics, student consultation, the impact of religion, and the question of whether developing countries should reform before receiving international aid.

The successful teams were Ysgol Dyffryn Taf (Whitland), Gorseinon College (Swansea), Bryn Hafren Comprehensive School (Barry), Whitchurch High School (Cardiff), King Henry VIII School (Abergavenny), Builth Wells High School, Ysgol Friars (Bangor) and Hawarden High School (Deeside). The Final of the Championships takes place on 26 November at the Temple of Peace, Cardiff. If you would like to attend, e-mail **cewc@wcia.org.uk**.

www.cewc-cymru.org.uk

CITIZENS OF EUROPE

For the first time since 2002, CEWC-Cymru is organising a pair of European Youth Parliament (EYP) events this school year. EYP helps 15-18 year-olds understand European issues through research and debate; the winning team at each event goes forward to a UK Selection Conference in September 2006. The South Wales Forum takes place in the Chamber of the National Assembly for Wales in November, while the North Wales Forum takes place in February.

The February event also forms part of a wider European project, Citaware, which is being run in conjunction with the Welsh Centre for International Affairs and the online newspaper EuropaWorld. That project will also result in five activity sheets for teachers, each focusing on an aspect of the European Union such as human rights, democracy and sustainable development. For more information e-mail **martinpollard@wcia.org.uk**.

NEW CEWC-CYMRU RESOURCES AVAILABLE

Two bilingual resources have recently been launched by CEWC-Cymru. To place an order, please send a cheque payable to CEWC-Cymru; all prices include postage.

Thinking Citizens is a photocopied teaching pack which uses the Philosophy for Children (P4C) method to get children thinking in PSE lessons. Aimed at Key Stage 2 classes, it includes stories and pictures to stimulate philosophical discussion, as well as warm-up activities, questions and suggested resources for extension lessons. It costs £6 for CEWC-Cymru member schools or £8 for non-members.

Our CD-ROM, ***Your Say: Democracy in Schools and Beyond***, contains advice on setting up a school council and organising a visit from an Assembly Member, as well as information on democracy in general. It costs £13 for CEWC-Cymru member schools or £18 for non-members.

FOCUS ON… CEWC-CYMRU'S TRAINING SERVICES

CEWC-Cymru offers a range of in-service training services for individual schools or school clusters. Each training session can last from an hour to a full school day, and is tailored to your requirements. We can offer training on the following subjects:

- Education for sustainable development and global citizenship – overview
- School councils and democracy
- Human rights and children's rights
- The links between thinking skills, citizenship and Philosophy for Children
- Debating techniques

Discounts are available for CEWC-Cymru member schools and colleges, and some sessions can be provided for both teachers and students. For further information on any of our training opportunities, e-mail **cewc@wcia.org.uk**.

GET INVOLVED – CEWC-CYMRU PROJECTS FOR 2005-07

CEWC-Cymru has embarked on two exciting new projects this year. We are currently looking for schools who would like to get involved. If you are interested, contact Kate Wolstenholme at **katewolstenholme@wcia.org.uk**.

Skills for Democracy

A third grant from The Electoral Commission is enabling us to expand our work on democracy still further. *Skills for Democracy* aims to engage pupils in Communities First area schools in democracy at local, national and global levels. Following consultation with students and teachers, a series of skills-based lesson plans for use in PSE will be piloted in two schools. The project will culminate in mock National Assembly elections in March 2007.

*INC*lusion

*INC*lusion, our project funded by the European Union, uses citizenship education to improve the employability of young people in Special Educational Needs schools, Pupil Referral Units and Secure Accommodation. In the first phase, a series of lesson plans were developed at Hillside Secure Unit. These have recently been accredited by the WJEC's *Firstskills* programme, meaning that students who complete the sessions will receive a certificate. Each session uses a short video as stimulus material, followed by a workshop. The video used currently is *Who Killed Simone Valentine?*, the true story of a girl who leaves school after being bullied and becomes involved with drugs and crime.

Websites and whiteboards

The above projects also involve the redevelopment of *Citizenship Today*, our online teachers' resource. This process will include the addition of new material and the development of resources for interactive whiteboards. In addition, we will set up a section of the site specifically for young people. This will include an interactive element, as well as information about our activities, and further video material developed during *INC*lusion.

BRIEFLY…

Other recent CEWC-Cymru activities include: helping sixth-form students at St Joseph's High School (Newport) to understand the **Make Poverty History** campaign... educating about **children's rights** at schools in Pontypridd, St Asaph and Blaina... attending an **impetus** awards ceremony at which our One World Conference was honoured for promoting human rights... speaking to over 1,000 students at Corpus Christi High School (Cardiff) on the subject of **asylum seekers and refugees**... and discussing global citizenship education with **trainee teachers** in Bangor.

TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk Reg. charity no. 1048759

CEWC-CYMRU TEMPLE OF PEACE • CATHAYS PARK • CARDIFF • CF10 3AP

Design elfen.co.uk

CEWC CYMRU

CYNGOR ADDYSG MEWN DINASYDDIAETH BYD - CYMRU

CYLCHLYTHYR 05

HYDREF

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

Y CYNULLIAD YN CADARNHAU EI GEFNOGAETH I DDADLEUON BYD

Cafwyd cadarnhad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn un o brif noddwyr Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd 2006, i'w cynnal yng Nghymru fis Gorffennaf nesaf. Bydd nawdd y Cynulliad yn gymorth i gynnig gweithdai dadlau i ddisgyblion cyn, yn ystod ac wedi'r Pencampwriaethau. Bydd hefyd yn ein galluogi ni i ddosbarthu deunyddiau dysgu ar ddadlau i'r holl ysgolion a cholegau. Trefnir y Pencampwriaethau gan fam gorff CEWC-Cymru, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, gyda chefnogaeth Ffederasiwn Dadlau Cymru.

Yn y cyfamser, derbyniodd John Humphrys, un o newyddiadurwyr amlycaf y BBC, wahoddiad i ddod yn Noddwr i'r Pencampwriaethau. Ar ymweliad diweddar â Chaerdydd, bu'n sgyrsio â Helen Jarman, hyfforddwraig tîm dadlau cenedlaethol Cymru, a dywedodd wrthym: "Mae Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd yn beth gwych – yr union fath o beth a ddylai fod yn digwydd yn ein hysgolion. Dylai bod clwb dadlau ym mhob ysgol."

Bu Martin Pollard, Swyddog Addysg CEWC-Cymru, yn ymweld â gefaill wlad Cymru, Lesotho, ym mis Awst. Tra roedd yno, bu'n arwain nifer o weithdai dadlau a chododd y posibilrwydd o weld tîm o Lesotho yn cymryd rhan ym Mhencampwriaethau'r Byd 2006.

CREFYDD, DIWYGIO A'R GEMAU OLYMPAIDD

Enillodd wyth tîm talentog le yng ngornest gogynderfynol Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru Banc Julian Hodge 2005. Cynhaliwyd y gornestau rhagbrofol ym mis Hydref, pryd y bu disgyblion yn dadlau o blaid ac yn erbyn Gemau Olympaidd 2012, ymgynghori â disgyblion, dylanwad crefydd, ac a ddylai gwledydd sy'n datblygu ymddiwygio cyn iddynt dderbyn cymorth rhyngwladol.

Ysgol Dyffryn Taf (Hendy-gwyn), Coleg Gorseinon (Abertawe), Ysgol Gyfun Bryn Hafren (Y Barri), Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd (Caerdydd), Ysgol y Brenin Harri'r VIIIfed (Y Fenni), Ysgol Uwchradd Llanfair ym Muallt, Ysgol Friars (Bangor) ac Ysgol Uwchradd Penarlâg (Glannau Dyfrdwy) oedd y timau llwyddiannus. Cynhelir Gornest Derfynol y Pencampwriaethau ar 26 Tachwedd yn y Deml Heddwch, Caerdydd. Os carech fod yno, anfonwch e-bost at **cewc@wcia.org.uk.**

www.cewc-cymru.org.uk

DINASYDDION EWROP

Am y tro cyntaf er 2002, mae CEWC-Cymru yn trefnu par o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r Senedd Ieuenctid Ewropeaidd (SIE) yn ystod y flwyddyn ysgol hon. Mae'r SIE yn helpu disgyblion 15-18 mlwydd oed i ddeall materion Ewropeaidd trwy gyfrwng ymchwilio a dadlau; bydd y tîm buddugol ym mhob digwyddiad yn mynd yn ei flaen i Gynhadledd Ddethol y DG ym mis Medi 2006. Cynhelir Fforwm De Cymru yn Siambr Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd, a chynhelir Fforwm Gogledd Cymru ym mis Chwefror.

Bydd y digwyddiad ym mis Chwefror hefyd yn rhan o brosiect Ewropeaidd ehangach, Citaware, a gynhelir ar y cyd â Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru a'r papur newydd arlein EuropaWorld. Bydd y prosiect hefyd yn esgor ar bum taflen weithgaredd ar gyfer athrawon, gyda phob un yn canolbwyntio ar un agwedd ar yr Undeb Ewropeaidd, fel hawliau dynol, democratiaeth a datblygu cynaliadwy. Am ragor o wybodaeth anfonwch neges e-bost at **martinpollard@wcia.org.uk.**

ADNODDAU NEWYDD AR GAEL GAN CEWC-CYMRU

Yn ddiweddar lansiwyd dau adnodd dwyieithog gan CEWC-Cymru. Os am archebu, anfonwch siec sy'n daladwy i CEWC-Cymru os gwelwch yn dda; mae pob pris yn cynnwys cludiant.

Pecyn dysgu wedi ei lungopïo yw ***Dinasyddion sy'n Meddwl*** sy'n defnyddio'r dull Athroniaeth ar gyfer Plant i sbarduno plant i feddwl mewn gwersi ABCh. Anelir y pecyn at ddosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2, ac mae'n cynnwys storïau a lluniau i ennyn trafodaeth athronyddol, yn ogystal â gweithgareddau cychwynnol, cwestiynau ac awgrymiadau am adnoddau ar gyfer gwersi pellach. Y gost yw £6 ar gyfer ysgolion sy'n aelodau o CEWC-Cymru neu £8 i ysgolion nad ydynt yn aelodau.

Mae ein CD-ROM, ***Dweud eich Dweud: Democratiaeth mewn Ysgolion a Thu Hwnt***, yn cynnwys cyngor ar sefydlu cyngor ysgol a threfnu ymweliad gan Aelod Cynulliad, yn ogystal â gwybodaeth am ddemocratiaeth yn gyffredinol. Y gost yw £13 i ysgolion sy'n aelodau o CEWC-Cymru neu £18 i ysgolion nad ydynt yn aelodau.

CIP AR… GWASANAETHAU HYFFORDDI CEWC-CYMRU

Mae CEWC-Cymru yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau hyfforddiant mewn swydd i ysgolion unigol neu glystyrau o ysgolion. Gall y sesiwn hyfforddiant fod yn un awr o hyd ar y naill law neu ddiwrnod ysgol cyfan ar y llall, a chaiff ei theilwrio at eich union ofynion. Gallwn gynnig hyfforddiant ar y pynciau canlynol:

- Arolwg o'r maes addysg ar ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth byd
- Cynghorau ysgol a democratiaeth
- Hawliau dynol a hawliau plant
- Y cysylltiad rhwng sgiliau meddwl, dinasyddiaeth ac Athroniaeth ar gyfer Plant
- Technegau dadlau

Mae gostyngiad ar gael i ysgolion a cholegau sy'n aelodau o CEWC-Cymru, ac mae rhai sesiynau'n addas ar gyfer athrawon a disgyblion. Am ragor o wybodaeth ar unrhyw un o'n cyfleoedd hyfforddiant, anfonwch neges e-bost os gwelwch yn dda at **cewc@wcia.org.uk**.

FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk Elusen gof. rhif 1048759

CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH • PARC CATHAYS • CAERDYDD • CF10 3AP

CHWARAE RHAN – PROSIECTAU CEWC-CYMRU AR GYFER 2005-07

Mae CEWC-Cymru wedi dechrau gwaith ar ddau brosiect newydd cyffrous eleni. Os hoffai eich ysgol gymryd rhan neu os oes gennych awgrymiadau, cysylltwch â Kate Wolstenholme ar **katewolstenholme@wcia.org.uk**.

Sgiliau ar gyfer Democratiaeth

Mae trydydd grant gan y Comisiwn Etholiadol yn ein galluogi ni i ymestyn ein gwaith ar ddemocratiaeth eto fyth. Nod *Sgiliau ar gyfer Democratiaeth* yw diddori disgyblion o ysgolion yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf mewn democratiaeth ar y lefel leol, genedlaethol a byd-eang. Yn sgîl ymgynghori gyda disgyblion ac athrawon bydd cynlluniau peilot yn defnyddio cyfres o wersi at ddefnydd sgiliau ABCh mewn dwy ysgol. Penllanw'r prosiect fydd ffug-etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2007.

*INC*lusion

Mae *INC*lusion, prosiect CEWC-Cymru dan nawdd yr Undeb Ewropeaidd, yn defnyddio addysg ym maes dinasyddiaeth i wella cyfle pobl ifainc mewn ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig, Unedau Cyfeirio a Llety Diogel i gael gwaith. Yn y cymal cyntaf, datblygwyd cyfres o gynlluniau gwersi yn Uned Ddiogel Hillside. Cafodd y rhain eu hachredu'n ddiweddar gan raglen *Sgiliau Cyntaf* y CBAC, sy'n golygu y bydd myfyrwyr sy'n cwblhau y sesiynau yn derbyn tystysgrif. Mae pob sesiwn yn defnyddio fideo byr fel sbardun, gyda gweithdy i ddilyn. Enw'r fideo a ddefnyddir ar hyn o bryd yw *Who Killed Simone Valentine?*, hanes go iawn merch sy'n gadael yr ysgol am ei bod yn cael ei bwlio ac yn ymroi i gyffuriau a throseddu.

Gwefannau a byrddau gwyn

Mae'r prosiectau uchod yn golygu hefyd ailddatblygu *Dinasyddiaeth Heddiw*, ein hadnodd ar-lein i athrawon. Bydd y broses hon yn cynnwys ychwanegu deunydd newydd a datblygu adnoddau ar gyfer byrddau gwyn rhyngweithiol. Byddwn hefyd yn creu un adran o'r gwefan yn arbennig ar gyfer pobl ifainc. Bydd hon yn cynnwys elfen ryngweithiol, yn ogystal â gwybodaeth am ddigwyddiadau, a deunydd fideo pellach a ddatblygir yn ystod *INC*lusion.

YN GRYNO…

Ymhlith gweithgareddau eraill CEWC-Cymru yn ddiweddar roedd: helpu disgyblion chweched-dosbarth yn Ysgol Uwchradd Sain Joseff (Casnewydd) i ddeall yr ymgyrch **Rhown Derfyn ar Dlodi**... addysgu ynghylch **hawliau plant** mewn ysgolion ym Mhontypridd, Llanelwy a Blaina... mynd i seremoni wobrwyo **impetus** lle cafodd ein Cynhadledd Un Byd ei hanrhydeddu am hyrwyddo hawliau dynol... annerch dros 1,000 o ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Corpus Christi (Caerdydd) ar bwnc **ceiswyr lloches a ffoaduriaid**... a thrafod addysg dinasyddiaeth byd gydag **athrawon dan hyfforddiant** ym Mangor.

Dylunio elfen.co.uk